

canllaw
darllen
 dros Gymru

2020-21

Her ddarllen hwyliog
 i blant oed cynradd Cymru

 CYNGOR LLYFRAU CYMRU
 BOOKS COUNCIL of WALES



#CaruDarlenn



“Dyma ffordd wych i gynnig profiadau i blant, i ddatblygu ethos Gymreig, i feithrin hyder wrth ddarllen, siarad a pherfformio”

athro



“Wnes i fwynhau’n fawr, mae cael cyfle i ddarllen a thrafod y llyfrau yn wych, ac mae perfformio’n andros o hwyl!”

dysgwr



Beth yw Darllen Dros Gymru?

Yn syml, her ddarllen hwyliog i blant oed cynradd Cymru sy’n:

- annog plant i wirioni ar ddarllen a thrafod llyfrau Cymraeg.
- meithrin agweddau cadarnhaol a hirdymor tuag at ddarllen.
- cefnogi datblygiad llythrennedd emosiynol.
- Cyd-fynd â gofynion y Siarter Iaith a’r Cwricwlwm i Gymru.
- cynnig hyblygrwydd gweithgaredd lefel grŵp neu ddosbarth.

Dyma glip fideo i egluro

https://www.youtube.com/watch?v=i9Ur_oXFpVw&t=33s






Ar gyfer 2020–21

Oherwydd ansicrwydd yn sgil Covid 19 ni fyddwn yn cynnal ein rowndiau cenedlaethol arferol yn Aberystwyth. Yn hytrach, byddwn yn gwobrwyo enillwyr sirol ac yn dewis enillwyr cenedlaethol o blith y rhain.

Sut mae'n gweithio?

- Cysylltwch gyda'ch trefnydd sirol i gofrestru ar gyfer her Darllen Dros Gymru (manylion yma).
- Porwch drwy'r detholiad o deitlau gwyh ac amrywiol a geir yn y casgliadau, ar gyfer darllenwyr Bl3/4 a 5/6.
- Dewiswch eich teitlau o'r casgliad – un llyfr ar gyfer yr her drafod ac un ar gyfer yr her hysbyseb hyrwyddo.
- Archebwch eich llyfrau (ceir gwybodaeth bellach ar ddiwedd y canllaw).
- Darllenwch a mwynhewch y llyfrau (fesul grŵp neu ddosbarth).
- Mae Adnoddau Adolygwyr Ifanc ar gael YMA i'w lawrlwytho am ddim i'ch cefnogi (books.wales/gwasanaethau-services/plant-children/gweithgareddau-activities).
- Dewiswch aelodau ar gyfer eich criw trafod (4 aelod) a chriw hysbyseb hyrwyddo (uchafswm o 8 aelod).
- Ewch ati i drafod y cynnwys yn fanwl a chreu cyflwyniad ar ffurf hysbyseb i annog darllenwyr eraill i fwynhau'r llyfr.
- Bydd eich trefnydd sirol yn cysylltu gyda chi er mwyn trefnu dyddiad ar gyfer beirniadu'r heriau.


Casgliad llyfrau ar gyfer her Blynnyddoedd 3 a 4 – deg o lyfrau gwych ac amrywiol!



9781849674621

*Stori Pobl – Llyfr Cyntaf am Ddynoliaeth Addas. Siân Lewis

Cyflwyniad i'r byd dynol ar gyfer darllenwyr ifanc, gan edrych ar sut y mae'r bod dynol wedi esblygu ac ar hanes y ddynoliaeth hyd at heddiw.



9781784617448

*Cadi a'r Celtiaid Bethan Gwanas


Stori arall am Cadi ddireidus yn mynd i wersylla ger Bryn Celli Ddu ar Ynys Môn. Mae Cadi fusneslyd yn cwrdd â dau ffrind newydd sydd ddim cweit yr un fath â hi!



9781785623165

*Hunllef o Anrheg Addas. Bethan Gwanas

Mae Calan Gaeaf yn nesáu'n gyflym ac mae Aled yn dysgu y gall ddarganfod ffrindiau yn y llefydd mwyaf rhyfedd, ei fod yn ddewr, a beth yn union sy'n digwydd i blant drwg!



9781784617776

*Llyfr Adar Mawr y Plant Onwy Gower

Llyfr ffeithiol am 50 o adar sydd i'w gweld yng Nghymru, yn cynnwys ffeithiau, ffotograffau a lluniau wedi eu comisiynu'n arbennig ar gyfer y gyfrol.



9781849674683

*Mae Ein Tŷ Ni ar Dân – Cri Greta Thunberg i Achub y Blaned Addas. Elin Meek


Stori bwerus a phwysig yr ymgyrchwraig ifanc a sbardunodd ymgyrchoedd byd-eang, gan fynnu bod arweinwyr byd yn gweithredu ar fyrder i ddelio â phroblemau newid hinsawdd.



9781849673785

*Sherlock Holmes a Diflaniad y Diemwnt Addas. Nia Peris


Mae gem adnabyddus wedi'i ddwyn! Tybed a all Sherlock, gyda help John a Martha, ddatrys dirgelwch y diemwnt hynod? Stori fywiog fydd yn apelio at bob darpar-dditectif ifanc.



9781785621666

Cyfes Academi Pêl- Droed: Gyda'n Gilydd Addas. Mari George

Mae Jake Oldfield yn bêl-droediwr dawnus sy'n chwarae i'r tîm lleol. Er ei fod yn fychan o gorff, mae'n breuddwydio y caiff wireddu ei freuddwyd o chwarae i dîm o safon uwch.



9781784617196

Genod Gwych a Merched Medrus Medi Jones-Jackson


Dyma ddeuddeg o ferched ysbrydoledig o Gymru, e.e. Tori James, Laura Ashley, Eileen Beasley, Amy Dillwyn a Haley Gomez. Llyfr yn llawn hwyl, ffeithiau, posau, gweithgareddau, cartwnau a lluniau lliwgar.



9781785622526

Cyfes Roli Poli: Pedro y Pengwin Awen Schiavone

Mae Pedro yn edrych fel pengwin arferol, yn swnio fel pengwin arferol ac yn bihafio fel pengwin arferol, ond nid pengwin arferol yw hwn.




9781785622533

Cyfes Miss Prydderch: 4. Dosbarth Miss Prydderch a'r Eisteddfod Genedlaethol Mererid Hopwood

Hanes dosbarth Miss Prydderch wrth iddynt fynychu'r Eisteddfod yng Nghaerdydd ... ond mae straeon ei hathrawes anarferol yn ein cludo i fydd arallfyddol, cyffrous – a pheryglus.

Casgliad llyfrau ar gyfer her Blynyddoedd 5 a 6 – deg o lyfrau gwyh ac amrywiol!




9781849674881

Yr Hudlath a'r Haearn – Y Ddau Ddewin

Addas. Ifan Morgan Jones


Dewch i fyd dewiniaid ac ymladdwyr, creaduriaid chwedlonol a hud pwerus mewn antur ffantasi.



9781913245009

*Siwrne yn y Gorffennol Addas. Mari George


Anturiaethau Aled a'i chwaer Rhian sy'n syrthio trwy ddrych eu modryb ac yn glanio yn 1912. Mae teithio ar wib mewn car gwfreiddiol o beryglus ond sut fydd y ddau'n medru dod yn ôl i'r presennol?



9781912261758

*Chwedlau'r Copa Coch: Yr Horwath Elidir Jones


Mae bwystfil yn bygwth y wlad, creadur yn syth o ganol hunllef – Yr Horwath. Yr unig rai a all ei drechu yw criw bach o anturiaethwyr annisgwyl. Nofel ffantasi i unrhyw un hyn sy'n hoff o antur.



9781845277109

*Dro ar ôl Tro Addas. Eleri Huws

Mae bywyd yn gymhleth i Mali a Beth, ond mae pethau'n fwy dyrys fyth wrth i'r ddwy gerdded drwy ddrws dirgel sy'n mynd â nhw i ... haf 1984! Dyma nofel â phwyslais cryf ar berthnasau ffrindiau a theulu.



9781845277079

Y Goron yn y Chwarel Myrddin ap Dafydd


Stori wedi'i gosod ym Mlaenau Ffestiniog yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Mae Sardar yn dianc i ardal y chwareli rhag y bomiau sy'n taro dinas Lerpwl. Daw hefyd i wybod am gyfrinach fawr ynghudd dan y llechi.



9781785622588

Arhosfan ym Mhen Draw'r Byd Addas. Ioan Kid


Wrth yr arhosfan bws mae Rhys yn digwydd dod ar draws yr union fan lle mae byd chwedlau a helyntion y byd go iawn yn cwrdd. A fydd y criw brith yma'n ddigon i'w achub rhag y gelyn peryclaf y gwyddon ni amdano?



9781784617073

Asiant A: Her Ll Anni Llŷn

Mae Alys yn cael ei gorfodi i gymryd rhan mewn cystadleuaeth sy'n mynd i wthio ei galluedd i'r eithaf trwy ateb y posau, cracio'r codau a chydweithio. Tybed a fydd hi a'i chyd-gystadleuwyr yn llwyddo i ddal y lladron?



9781912261567

Y Ferch Wylt Addas. Mari George

Mae bywyd Gemma yn llanast. Mae ei mam yn grac, mae ei thad yn y carchar, mae ei brawd yn cymysgu â chriw amheus ... ac ar ben y cwbl i gyd, mae gan ei mam-gu fuwch yn yr iard gefn. Stori am gyfeillgarwch anaferol a chymuned yn closio.



9781912261598

Cyfres Trio: Antur y Castell Manon Steffan Ros

Dyma griw nad oes neb arall am ymwneud â nhw am eu bod yn 'wahanol'. Mae gan bob un o'r tri ei dalent arbennig, ond a yw Trio'n ddigon dewr i achub castell Caernafon?



9781910080962

Sgramblo Huw Davies ac Elinor Wyn Reynolds

Davidde yw targed Lyndon a'i gang o fwllis, ac mae'r prifathro gwallgo newydd yn cadw llygad barud arno. Yn annisgwyl, mae'n cael beic sgramblo – ac mae ei fyd yn newid.

Gair i gall — Trafod

- Prif nod yr her yw dangos bod y criw yn gallu trafod holl agweddau'r llyfr.
- Ni fydd disgwyl i'r criw trafod fod wedi paratoi trafodaeth o flaen llaw.
- Mae disgwyl i bob aelod ymateb i gwestiynau penagored a sylwadau'r beirniad yn ogystal ag ymateb i sylwadau ei gilydd.
- Caniateir uchafswm o 4 aelod ym mhob tîm.
- Bydd y sesiwn beriniadu oddeutu 8 munud o hyd.

Am beth fydd y beirniad yn chwilio?

Gwybodaeth

Gwybodaeth drylwyr am gynnwys y llyfr.

- Dealltwriaeth dda o neges a themâu y llyfr.
- Y gallu i fynd dan groen y llyfrau, y stori a'r cymeriadau, lle mae hynny'n briodol.
- Cyfeirio at arddull, strwythur a nodweddion y llyfr.
- Cyfeirio, lle bo hynny'n briodol, at ddarllen cyffredinol y tu allan i ffiniau'r gystadleuaeth.

Cydbwysedd fel grŵp wrth drafod

- Y gallu i drafod yn annibynnol fel grŵp.
- Cyfraniad cyfartal a chytbwys gan bob aelod o'r tîm
- Trafod byrlymus.

Mynegi barn

- Mynegi barn yn glir gan roi rhesymau gonest a theg.
- Y gallu i holi, cytuno, ateb, anghytuno a herio lle mae hynny'n briodol.
- Gwrando ac adeiladu ar sylwadau ei gilydd.
- Cynnig sylwadau sy'n berthnasol i sylwadau eraill.

Cywirdeb iaith a naturioldeb

- Defnyddio geirfa, ymadroddion a chystrawennau Cymraeg.
- Rhoddir 50% o'r marciau am y trafod.

Gair i gall — hysbyseb hyrwyddo

- Prif nod y perfformiad yw hyrwyddo'r llyfr er mwyn apelio at gynulleidfa o blant o'r un oedran er mwyn eu hannog i'w brynu a'i ddarllen.
- Pob tîm i ddewis UN llyfr gwahanol i'r un a ddewiswyd i'w drafod.
- Uchafswm o 8 aelod ym mhob tîm.
- Nid oes raid i'r aelodau sy'n cyflwyno'r llyfr fod yr un rhai â'r disgyblion fydd yn cymryd rhan yn y drafodaeth.
- Caniateir uchafswm o 6 munud ar gyfer yr hysbyseb hyrwyddo.
- Tynnir un marc am bob hanner munud dros y 6 munud a ganiateir.
- Caniateir props a gwisgoedd.
- Ni chaniateir cyflwyniadau Pwerbwynt na cheisiadau am oleuo arbennig.
- Dylid dechrau a gorffen perfformiad â llwyfan wag.
- Gellir defnyddio cyfeiliant cerddorol byw neu wedi'i recordio ar drac sain.

Am beth fydd y beirniad yn chwilio?

- Cyflwyniad sy'n cyfleu naws y llyfr ac yn annog y gynulleidfa darged i fynd ati i ddarllen y llyfr.
 - Cyflwyniad bywiog gydag effeithiau dramatig amrywiol.
 - Defnydd hyderus ac effeithiol o'r gofod berfformio.
 - Y gallu i dafu lleisiau ac i gyfleu neges yn glir – lleisiau uchel, clir a hyderus.
 - Symudiadau effeithiol.
 - Y gallu i weithio fel tîm – cyfle i bob unigolyn gyfrannu at y cyflwyniad.
 - Mae'r defnydd o wisgoedd a 'phrops' yn effeithiol ond nid ydynt yn orfodol.
- **Rhoddir 50% o'r marciau am y trafod.**

Mae rai o sgriptiau llyfrau i'w gweld yma:
books.wales/gwasanaethau-services/plant-children/gweithgareddau-activities

Eisiau gweld a chlywed esiampiau?

Ewch i wyllo a gwranddo ar enghreifftiau o berfformiadau gan fuddugwyr diweddar ar ein sianel YouTube:

https://www.youtube.com/results?sp=mAEB&search_query=Darllen+Dros+Gymru

Eisiau archebu'r llyfrau?

- O'ch llyfrwerthwr lleol.
- Ar **gwales.com**. Byddwn yn talu comisiwn i siop lyfrau o'ch dewis.
- Gan ein cynrychiolwyr gwerthu rhanbarthol. Byddwch hefyd yn cefnogi eich siop lyfrau leol.

Trefnyddion:

<http://www.books.wales/8964.file.dld>

Gogledd Cymru

shoned.davies@llyfrau.cymru

07909 233010

elin.prysor@llyfrau.cymru

07909 233013

Gorllewin Cymru

mwynwenmai.jones@llyfrau.cymru

07909 233011

De Cymru

elinor.tuckey@llyfrau.cymru

07909 233012

ifan.thomas@llyfrau.cymru

07909 233016

Eisiau cofrestru?

Anfonwch neges at eich trefnydd sirol gan gynnwys eich enw a'ch manylion cyswllt. (linc yma at pdf trefnyddion sirol)

Cysylltwch â ni:

Adran Llyfrau Plant a Hyrwyddo Darllen,
Cyngor Llyfrau Cymru, Castell Brychan,
Aberystwyth, Ceredigion SY23 2JB
E-bost: cllc.plant@llyfrau.cymru
Ffôn: 01970 624151

